

BYDDAF YN meddwl mai'r cyfnod rhwng y ddau ryfel oedd oes aur y 'lyfr bwrw Sul' yn Lloegr, y blodeugerddi hylaw a diddan y gellid eu pacio wrth gychwyn am eich bwthyn yn y wlad i barti bwrw Sul ym mhlasty rhyw uchelwr; llyfrau megis *The Week-end Book*, (gol. Vera Mendel a Francis Meynell) y ceir copi ohono mewn unrhyw iop lyfrau ail-law gwerth ei dalen.

Gennyf mae argraffiad y Nonesuch Press, 1929, gyda darluniau inc coch a gwyrdd o flappers a llanciau mewn *Oxford bags* yn darllen cerddi iddynt. Mae ynddo adran o *Hate poems* sy'n cynnwys hon gan Robert Graves:

**The Traveller's curse after misdirection** (from the Welsh)

May they wander stage by stage  
Of the same vain pilgrimage,  
Stumbling on, age after age,  
Night and day, mile after mile,  
At each and every step, a stile,  
At each and every stile, withal,  
May they catch their feet and fall;  
At each and every fall they  
take,  
May a bone within them break,  
And may the bones that break  
within  
Not be, for variation's sake,  
Now rib, now thigh, now arm,  
now shin,  
But always, without fail,  
THE NECK.

Trigai tad y bardd, y llenor Eingl-Wyddelig Alfred Perceval Graves, yn Harlech, a chyhoeddodd gyfieithiadau o gerddi Cymraeg. Cyfrannodd nifer o olygfeydd i'r *Pageant of Harlech Castle* (1922). Yn ei hunan-gofiant *Goodbye to all that* sonia Robert Graves am y gwyliau a dreuliai yn Harlech. Dengys ei lyfr rhyfeddol *The White Goddess* y gwyddai rywfaint am lenyddiaeth Cymru. Ond tybed faint o Gymraeg a wyddai? Ble y cafodd y testun gwreiddiol? Pwy oedd yr awdur?

\* \* \* \*

RHYFEDD yw'r pethau diddorol a geir weithiau mewn manau annisgwyl: wrth loffa yn siop Palace Books yn stryd fawr Bangor, dyma fi'n taro ar *A Christmas Book*, blodeugerdd o gerddi a hanesion am yr ŵyl, gan D. B. Wyndham Lewis a C. C. Heseltine, a gyhoeddwyd yn 1928. Llyfr tra diddan, yr union beth at fy nant i.

Yn ogleisiol cyhoeddir ei fod yn cynnwys pethau o bob oes, o Hilar Sant o Poitiers hyd at Mr Pooter, 'but omitting Dickens, Wahington Irving, Father Christmas, Good King Wenceslas, robins, property yule-logs, synthetic snow, ye olde Englyshe Yuletyde cheere and all manifestations of the coloured Christmas supplement' — ie, hyn hyd yn oed more bell yn ôl i 1929!

Pa un bynnag, ymysg trysorau'r llyfr ceir carol *Gymraeg Y Dydd y ganed Jesu* (sic) gan un Siankin Morgan, ac

# LLOFFION

Gan Bruce Griffiths

a ddyddir i'r unfed ganrif ar ddeg, dyma'r testun:

O, Gristnogion, dyma'r dydd  
Y mae i ni'n brudd lewonychu,  
Y mae'n uchel drwy holl gred,  
Y dydd y ganed Iesu.

Dyw Nadolig, gwir iawn yw,  
Y ganed Ddu o wry, y  
Forwyn Fair, ond difai gwnaeth  
Roi un mab maeth i'n prynu?

O dra chariad ar ei ddyn  
Fe'i rhoes ei hun i'n prynu  
Ar y groes a'i ais yn don  
A gwaed ei fron yn tarddu.

A heb geisio tal na hur  
Am ei ddolur, Iesu,  
Ond gwir galon pob rhyw ddyn,  
A'i gadw ei hun rhag pechu.

Ac o gwnaw'n ni felly'n brudd  
Pan ddél dydd terfynu,  
Ni gawn weled brenin nef  
A chydag ef wledychu.

Lle nad oes na chur na haint,  
Ond dawn a bruni a gallu,  
Na theyrnas i neb dan sêl  
Ond sawl a ddél i'w phrynu.

Yn dilyn ceir cyfieithiad i'r Saesneg:

O! Christians! Hail the dawn,  
Your joyous tributes pay;  
Its glory shines from shore to shore,  
For Christ was born this day.

O dawn of wondrous truth, —  
God of a virgin born;  
A Son who shall our souls  
redeem  
Is ours this Christmas morn.

Himself He sacrificed  
To make us ever free;  
Out of His riven side His blood  
Flowed down on Calvary.

And for that cruel hurt,  
For every bitter part,  
He seeketh nor reward nor hire  
Save to possess our heart.

Thus if His yoke we bear  
Before we end our day,  
We shall behold the King of Heaven  
And reign with him for aye.

No sorrow there abides,  
But pow'r and love and light;  
And they shall wear the victor's crown  
Who triumph in His might.  
David Emrys.

Ceir y testun Cymraeg yn *Hen Gwondidau, Carolau a chywyddau*, L. J. H. James a T. C. Evans (1910); blodeuai Shankin Morgan tua 1550. Tybed nad y bardd Dewi Emrys oedd 'David Emrys'? Sut y daeth ef i sylw D. B. Wyndham Lewis?

\* \* \* \*

YN Stratford on Avon y trewais ar *Saturday to Monday — A Week-end Companion* (gol. Frank Whitaker a W. T. Williams, 1938). Casgliad difyr o gerddi, a darnau rhyddiaith, o ganeuon, o chwaraeon a phosau.

Ymhlith y cerddi ceir rhai gan Idris Davies, Dylan Thomas, David Morgan a Huw Menai. Er mwyn boddio'r Cymry ragor, cynhwysir ymysg y caneuon *Land of my fathers*. Ni chofiaf imi weld na chlywed y geiriau Saesneg o'r blaen. Dyma nhw:

Oh land of my Fathers, the land of the freee,

The home of the Telyn, so soothing to me;  
Thy noble defenders were gallant and brave,  
For freedom their heart's life they gave.

Wales, Wales, home sweet home is Wales,

Till death be pass'd my love shall last,  
My longing, my yearning for Wales.

Thou Eden of bards and birthplace of song,  
The sons of thy mountains are valiant and strong;  
The voice of thy streamlets is soft to the ear

Thy hill (sic) and thy valleys, how dear.

Though slighted and scorn'd by the proud and the strong,  
The language of Cambria still charms us in song;  
The Awen survives, nor have envious tales  
Yet silenced the harp of dear Wales.

Mor ffuantus yw'r geiriau cyforiog o ffug-wlatgarwch sentimental tro'r ganrif!

Ai James James a'u piauw? Gwir, digon barddonlyd, er mor annwyl, yw'r gwreiddiol ond pwy ohonof a w'r ragor na'r pennill cyntaf a'r cytgan? Pwy a w'r beth yw 'pur hoff bau'?

Sylwch ar y cyffyrddiadau 'quaint': *Telyn*, *Awen* a serenir ac a gyfieithir mewn troed-nodiadau. Paham na alledid dweud 'harp', 'muse'? A sylwch sut yr osgowyd cyfieithu llinell fwyaf angerddol y gwreiddiol, *O! bydded i'r heniaith barhau!*

\* \* \* \*

A FYDDWCH yn casglu gwaith y Parch. R. S. Thomas? A yw ei bannffledyn *Three Poems* (Words Press, 1988) gennych? Mae'n cynnwys 'The Un-born', 'Caught' a 'Requests'. O'r 200 copi a argraffwyd, rhif 186 oedd f'un i. Felly brysiwch . . . cyfeiriad y wasg yw: Words Press, Hod House, Child Okeford, Dorset. Cost £3.75 a chcludiad 50c.

Ni allwn beidio â chymharu'r gost â chost ei un gerdd *Judgement Day*, yr argraffwyd mil copi ohoni yn 1960 am ddeunaw hen geiniog yr un. Heddiw ni thalai hynny am eich stamp ar lythyr archebu.

\* \* \* \*

BÛM DRWY Lanrwst am y tro cyntaf ers blynyddoedd a chael bod yno bellach siop lyfrau ail-law (Saesneg yn bennaf) y talai i'r llyfrbryf fynd i loffa ynddi: *Prospect Prints*, Ffordd Abergele. Syndod oedd canfod nad oedd Tanygraig, siop lyfrau Mrs Arianwen Parry, bellach ar gael: chwiliwr amdani yn *Bys a Bawd*, Ffordd Abergele. Yno y gwelais ddyrmaid o bannffledyn bach-digon prin, detholiad o gerddi'r Bardd Cocos, o waith Gwasg y Tŵr, gwasg fach breifat Ifor Jones o Lanfairpwll (o Glynceiriog yn wreiddiol). Y cyntaf i'r felin gaiff falu . . .

\* \* \* \*

BELLACH fe ddaeth gweithiau Saunders Lewis, ac ysgrifennu amdanynt, yn ddiwydiant. Y mae cyfraniadau cyffrous iawn i'r diwydiant yn yr arfaeth gan Wasg Prifysgol Cymru, meddai'r rheolwr, Ned Thomas, wrthaf y diwrnod o'r blaen; cyfrol o'i holl gerddi a fydd yn nes at boced y trwch ohonom na chyfrol Gwasg Gregynog; cyfrol o'i holl ddramaù; a chyfrol o'i lythrau cynnar at ei ddarpar-wraig Margaret Gilcriest. Ac efallai nad dyna ei diwedd hi, meddir i mi . . .

\* \* \* \*

WRTH BORI trwy hen gyfrolau o'r *Geninen* deuthum ar draws sawl tamaid blasus; er enghraifft, yn Ebrill 1915 dyma daro ar restr o werin-eiriau o Sir Fôn, ac un arall o'r un sir yn rhifyn Ebrill 1917.

Ond rhaid imi ddiolch i Mr Brinley Rees am dynnu fy sylw at yr unig gerdd (am a wn i) o ysgrifin Kate Roberts, yn rhifyn Gŵyl Dewi 1922. Nis rhestrir yn y llyfryddiaeth a geir yn y Gyfrol Deyrneg iddi, ond pwy arall y gallai hi fod? (Wele lun-gopi o'r gwreiddiol.)

Ni ellir amau diffuantrwydd ac angerdd Kate Roberts, ond rhigymu digon ystrydebol a geir yma, mi ddywedwn i. Ai hon yw'r unig gerdd o'i heiddo? Nid anodd gweld paham y dewisodd ryddiaith fel cyfrwng!

## Y Bardd Cwsg

Y MAE Cyfeillion Ellis Wynne yn cyhoeddi argraffiad Cain o *Gweledigaethau'r Bardd Cwsg* gan Ellis Wynne — diweddariad o'r testun gyda nodiadau gan P. J. Donovan a Dr. Gwyn Thomas.

Disgwylir y gyfrol nodedig hon o'r wasg fis Mehefin 1991. Os ydych am sicrhau copi anfonwch £50 yn enw 'Cyfeillion Ellis Wynne' i'r Br. Elfed Roberts, Tŷ'n Ffridd, Penrhyndeudraeth, Gwynedd.

Gan mai nifer cyfyngedig rhifedig a gyhoeddir o'r gyfrol hon gorau po gyntaf i chwi anfon eich archeb er mwyn bod yn siwr ohoni. Gallwch gael mwy o fanylion drwy gysylltu ag Elfed Roberts ar (0786) 770621.